yn y dref honno.[1]

Soniwyd eisoes fod Elis yn nai ac etifedd i 'John ap David ap Rice' o Ronnant mewn achos yn llys y Siawnsri tua 1533–8,[2] ac mai'r un achos oedd gan Elis dan sylw yn ei ragymadrodd i'r *Cronicl* yn Llsgr. Mostyn 158. Yn yr un llys, rhwng 1547 a 1551 ymladdwyd dau achos, un gan John ap David ap Rice, a'r llall gan ei frawd Robert ap David ap Rice, ynglŷn â thiroedd eu tad yn nhref Gronant.[3] Enwir eu gwrthwynebwyr, ond yr hyn sy'n ddiddorol yw mai asgwrn y gynnen oedd fod John wedi gosod ei diroedd yn adnau neu'n fach i Byrs Mwttwn. Yn erbyn Pyrs Mwttwn a'i deulu yr oedd Elis yn gobeithio, pe cai gyfle i ddod i Gymru o Galais, ymladd ei achos ef. Dyna a ddywed ef yn ei ragymadrodd a sgrifennwyd tua 1552.

Mae'n debyg, felly, fod John Davith nid yn unig yn ewythr i Elis, ond ei fod hefyd yn was pwysig iawn i Syr Robert. Mae'n eithaf tebyg mai ef a ddenodd Elis i Loegr gyntaf i wasanaethu Syr Robert, ond ni wyddom paham yr oedd John yn y lle cyntaf yn ei wasanaethu.

Abertawe — Prys Morgan

arianfys; efyddfys; goldfinger

Wrth drafod enwau'r bysedd mewn nodyn yn PKM. 176–7, awgrymodd Syr Ifor Williams y 'dylid gwrthod *arianfys* "ring-finger" A.L. i. 624' yng ngoleuni'r ffurf *garanvys* yn RM 155. Mae'r awgrym yn gywir: 'kyn reuet ae aranuys' yw darlleniad llsgr. *U* (Peniarth 37, 4. 7), sy'n sail i destun AL, ac *aran vys* sydd yn WML. 3. 2, o lsgr. *V* (Harl. 4353); ac ni roir *arianfys* yn GPC. Ond mae *arianfys* yn digwydd mewn cymal cyfreithiol arall, nas argraffwyd yn AL, hyd y gwelais i, er ei fod yn LW. 449 ac mewn llawysgrifau a ddefnyddiwyd at AL. Enwir gwahanol fysedd mewn gwahanol lawysgrifau; dyma'r rheol fel y rhoir hi yn llsgr. *K* (Peniarth 40, a sgrifennwyd tua 1469: mae rhan o'r llsgr., ond nid y testun cyfraith, yn sgrifen Lewis Glyn Cothi):

O d*eruyd* i dyn dy6edut nat yuo lladca6d, sef y6 y ueint o k*yureith*, kyhyt ac e6in i arianuys. (Peniarth 40, 170. 17)

Mae'r tudalen wedi'i staenio'n ddrwg â bustl, ac mae rhai llythrennau'n anodd eu darllen, ond mae'n bur sicr mai *arianuys* yw'r darlleniad cywir. Ceir rhyw ateg i hynny gan ddarlleniad llsgr. *Col* (o'r rhan nas argraffwyd yn *Llyfr Colan*):

[1] PRO E 101/62/18 (rhestri milwyr Calais), *Letters and Papers Foreign and Domestic, Henry VIII*, xv, t. 274. a PRO E 315/371–2 (trigolion Calais, 1556), lle mae 'John Davye' neu 'David' yn berchen ar 'The Moone' yng Nghalais.

[2] E. A. Lewis, *Early Chancery Proceedings concerning Wales* (Caerdydd, 1954), t. 115. Mae'r ddogfen yn anghyflawn ac yn anodd ei deall.

[3] Ibid., tt. 123–4. Eu gwrthwynebwyr oedd 'David and Harry ap John, John Lewis, Robert ap Rychard'. Ai tenantiaid Pyrs Mwttwn (Piers Mutton) oeddynt hwy, tybed?

kyhyt a guyn euyn er euydues. (Peniarth 30, 221. 8)

Tynnodd Timothy Lewis sylw at y cymal hwn yn ei Ragymadrodd i LHD. (td. xiii); 'kyhyd a ch6gyn yr e6in ar yr y6dvys' yw 'meint y llacka6d' yn ôl y llsgr. honno (Llansteffan 116, 90. 25), ac 'ewin yr bys nessaf yr ba6t' a enwir yn llsgr. *D* (Peniarth 32, 183. 21). Gellir cymharu ag *arianfys* ac *efyddfys* y *goldfinger* sy'n digwydd mewn testunau cyfraith yn yr Hen Saesneg (*Æthelberht* 54. § 4 ac Alfred 59: F. L. Attenborough, *The Laws of the Earliest English Kings*, 10, 88), lle y mae'n glir oddi wrth leoliad y cymal yn rhestr gwerthoedd y bysedd mai 'bys y fodrwy' a olygir.

blwyddau

Yn ôl WG 206, 'the forms *blwyddau*, *blwyddi* for "years" are pure fabrications', ac yn GPC 290*c*, o Feibl 1588 y daw'r enghraifft gynharaf o *blwyddau*. Ond cofnodir enghraifft gynharach yn AL i. 202, n. 11, mewn amrywiad ar V.C. II. xxviii. 5; daw hon o lsgr. *K* (tua 1469), a dyma'r darlleniad llawn:

Or pan aner map yni uo xiiij o uluydeu i dyly uot 6rth noe y tat ai dat yn argl6yd arno. (Peniarth 40, 120. 14)

Mae hwn yn cyfateb i'r enghraifft gyntaf o *blwydd* yn GPC., Or pan anher mab yny uo pedeyr bluyd ardec, o LLDW. 70. 22 (tudalen a dynnwyd o lsgr. *E*, B.M. Add. 14931).

Aberystwyth — Dafydd Jenkins

CYDFODAU O'R BYMTHEGFED GANRIF

Cyhoeddir isod destunau cydfodau a wnaed rhwng amryw o ardaloedd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif.[1] Defnyddiwyd pedair llawysgrif. Y mae A, sef Peniarth 163 Rhan II, yn llawysgrif yn llaw Gruffudd Hiraethog.[2] Gwnaed y gydfod hon, yn ôl Gruffudd Hiraethog, yn ymyl Pontgamarch rhwng Llanandras, Gwerthrynion, Mortun, tri chwmwd Deuddwr, Powys, Swydd y Waun, Swydd y Dre-wen a Swydd Croesoswallt yn y flwyddyn 1406. Fe'i copïwyd o lyfr Edward ap Dafydd ab Edward yn 1548. Llawysgrif yn llaw Robert Vaughan yw B, sef Peniarth 271. Gwnaed y gydfod hon eto yn ymyl Pontgamarch gan Lanandras, Gwerthrynion, Mortun a thri chwmwd Deuddwr 'vi blenedd wedi rryfel Owain'. Y gydfod hon yw'r ddogfen gyntaf a geir yng nghyfrol Robert Vaughan; ceir rhai defnyddiau eraill ac yna y nodyn: 'Hyd hyn allan o lyfr Dafydd ap Howel ap Madog wedy ei ysgrifennu yn deg ar bapir yn amser Edward IIII,

[1] Yr wyf yn ddiolchgar i'r Athro Thomas Jones, Mr. Dafydd Jenkins a Mr. Brynley Roberts am awgrymiadau gwerthfawr a gefais ganddynt wrth lunio'r erthygl hon.

[2] *RWM* i, t. 949.